

BRO DWYNWEN 31/08/2025
Yr Unfed Sul ar Degdeg wedi'r Drindod
Eleventh Sunday after Trinity

Colect 103 O Dduw, rwyt yn amlygu dy allu anfeidrol yn bennaf trwy ddangos trugaredd a thosturi: dyro inni'n drugarog y fath fesur o'rh ras, fel y bo i ni, gan redeg ar hyd ffordd dy orchmynion, dderbyn dy addewidion grasol, a'n gwneud yn gyfranogion o'rh drysor nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 103 O God, you declare your almighty power most chiefly in showing mercy and pity: mercifully grant to us such a measure of your grace, that we, running the way of your commandments, may receive your gracious promises, and be made partakers of your heavenly treasure; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Ecclesiasticus 10. 12-18 Dechrau balchder dyn yw ymadael â'r Arglwydd, a'i galon wedi cefnu ar ei Greawdwr. Oherwydd pechod yw dechrau balchder, ac y mae'r sawl sy'n glynu wrtho yn tywallt allan ffieidd-dra. Am hynny achosodd yr Arglwydd drallodion rhyfeddol, a llwyr ddinistrio'r rhai balch. Dymchwelodd yr Arglwydd orseddau tywysogion, a gosod rhai addfwyn i eistedd yn eu lle. Diwreiddiodd yr Arglwydd genhedloedd, a phlannu rhai gostyngedig yn eu lle. Dinistriodd yr Arglwydd diroedd cenhedloedd, a'u difa hyd at seiliau'r ddaear. Symudodd rai ohonyt o'u lle a'u difa, a pheri i'w coffadwriaeth ddarfod oddi ar y ddaear. Ni chrewyd balchder ar gyfer dynion, na dieter llidiog ar gyfer plant gwragedd.

Sirach 10. 12-18 The beginning of human pride is to forsake the Lord; the heart has withdrawn from its Maker. For the beginning of pride is sin, and the one who clings to it pours out abominations. Therefore the Lord brings upon them unheard-of calamities, and destroys them completely. The Lord overthrows the thrones of rulers, and enthrones the lowly in their place. The Lord plucks up the roots of the nations, and plants the humble in

their place. The Lord lays waste the lands of the nations, and destroys them to the foundations of the earth. He removes some of them and destroys them, and erases the memory of them from the earth. Pride was not created for human beings, or violent anger for those born of women.

Neu/or

Diarhebion 25. 6-7 *Paid ag ymddyrchafu yng ngŵydd y brenin, na sefyll yn lle'r mawrion, oherwydd gwell yw cael dweud wrthyt am symud i fyny, na'th symud i lawr i wneud lle i bendefig.*

Proverbs 25. 6-7 *Do not put yourself forward in the king's presence or stand in the place of the great; for it is better to be told, 'Come up here', than to be put lower in the presence of a noble.*

Salm 112 Molwch yr ARGLWYDD. Gwyn ei fyd y sawl sy'n ofni'r ARGLWYDD, ac yn ymhyfrydu'n llwyr yn ei orchmynion. Bydd ei ddisgynyddion yn gedyrn ar y ddaear, yn genhedlaeth uniawn wedi ei bendithio. Bydd golud a chyfoeth yn ei dŷ, a bydd ei gyfiawnder yn para am byth. Fe lewyrcha goleuni mewn tywyllwch i'r uniawn; y mae'r cyfiawn yn raslon a thrugarog. Da yw i bob un drugarhau a rhoi benthyg, a threfnu ei orchwylion yn onest; oherwydd ni symudir ef o gwbl, a chofir y cyfiawn dros byth. Nid yw'n ofni newyddion drwg; y mae ei galon yn ddi-gryn, yn ymddiried yn yr ARGLWYDD. Y mae ei galon yn ddi-sigl, ac nid ofna nes iddo weld diwedd ar ei elynion. Y mae wedi rhoi'n hael i'r tlodion; y mae ei gyfiawnder yn para am byth, a'i gorn wedi ei ddyrchafu mewn anrhydedd. Gwêl y drygionus hyn ac y mae'n ddig; ysgyrnyga'i ddannedd a diffygia; derfydd am obaith y drygionus.

Psalms 112 Praise the Lord! Happy are those who fear the Lord, who greatly delight in his commandments. Their descendants will be mighty in the land; the generation of the upright will be blessed. Wealth and riches are in their houses, and their righteousness endures for ever. They rise in the darkness as a light for the upright; they are gracious, merciful, and righteous. It is well with those who deal generously and lend, who conduct their affairs with justice. For the righteous will never be moved; they will be remembered for ever. They are not afraid of evil tidings; their hearts are

firm, secure in the Lord. Their hearts are steady, they will not be afraid; in the end they will look in triumph on their foes. They have distributed freely, they have given to the poor; their righteousness endures for ever; their horn is exalted in honour. The wicked see it and are angry; they gnash their teeth and melt away; the desire of the wicked comes to nothing.

Hebreaidd 13. 1-8, 15-16 Bydded i frawdgarwch barhau. Peidiwch ag anghofio lletygarwch, oherwydd trwyddo y mae rhai, heb wybod hynny, wedi rhoi llety i angylion. Cofiwch y carcharorion, fel pe byddech yn y carchar gyda hwy; a'r rhai a gamdrinnir, fel pobl sydd â chyrff gennych eich hunain. Bydded priodas mewn parch gan bawb, a'r gwely yn ddihalog; oherwydd bydd Duw yn barnu puteinwyr a godinebwyr. Byddwch yn ddiariangar yn eich dull o fyw; byddwch yn fodlon ar yr hyn sydd gennych. Oherwydd y mae ef wedi dweud, "Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat ddim." Am hynny dywedwn ninnau'n hyderus: "Yr Arglwydd yw fy nghynorthwyr, ac nid ofnaf; beth a wna pobl i mi?"

Cadwch mewn cof eich arweinwyr, y rhai a lefarodd air Duw wrthyh; myfyriwch ar ganlyniad eu buchedd, ac efelychwch eu ffydd. Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth. Gadewch inni, felly, drwyddo ef offrymu aberth moliant yn wastadol i Dduw; hynny yw, ffrwyth gwefusau sy'n cyffesu ei enw. Peidiwch ag anghofio gwneud daioni a rhannu ag eraill; oherwydd ag aberthau fel hyn y rhyngir bodd Duw.

Hebrews 13. 1-8, 15-16 Let mutual love continue. Do not neglect to show hospitality to strangers, for by doing that some have entertained angels without knowing it. Remember those who are in prison, as though you were in prison with them; those who are being tortured, as though you yourselves were being tortured. Let marriage be held in honour by all, and let the marriage bed be kept undefiled; for God will judge fornicators and adulterers. Keep your lives free from the love of money, and be content with what you have; for he has said, 'I will never leave you or forsake you.' So we can say with confidence, 'The Lord is my helper; I will not be afraid. What can anyone do to me?'

Remember your leaders, those who spoke the word of God to you; consider the outcome of their way of life, and imitate their faith. Jesus Christ is the same yesterday and today and for ever. Through him, then, let us continually

offer a sacrifice of praise to God, that is, the fruit of lips that confess his name. Do not neglect to do good and to share what you have, for such sacrifices are pleasing to God.

Luc 14. 1, 7-14 Aeth i mewn i dŷ un o arweinwyr y Phariseaid ar y Saboth am bryd o fwyd; ac yr oeddent hwy â'u llygaid arno.

Yna adroddodd ddameg wrth y gwesteion, wrth iddo sylwi sut yr oeddent yn dewis y seddau anrhydedd: "Pan wahoddir di gan rywun i wledd briodas, paid â chymryd y lle anrhydedd, rhag ofn ei fod wedi gwahodd rhywun amlycach na thi; oherwydd os felly, daw'r sawl a'ch gwahoddodd chwi'ch dau a dweud wrthy, 'Rho dy le i hwn', ac yna byddi dithau mewn cywilydd yn cymryd y lle isaf. Yn hytrach, pan wahoddir di, dos a chymer y lle isaf, fel pan ddaw'r gwahoddwr y dywed wrthy, 'Gyfaill, tyrdd yn uwch'; yna dangosir parch iti yng ngŵydd dy holl gydwesteion. Oherwydd darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchafir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun."

Meddai hefyd wrth ei wahoddwr, "Pan fyddi'n trefnu cinio neu swper, paid â gwahodd dy gyfeillion na'th frodyr na'th berthnasau na'th gymdogion cyfoethog, rhag ofn iddynt hwythau yn eu tro dy wahodd di, ac iti gael dy ad-dalu. Pan fyddi'n trefnu gwledd, gwahodd yn hytrach y tlodion, yr anafusion, y cloffion, a'r deillion; a gwyn fydd dy fyd, am nad oes ganddynt fodd i dalu'n ôl iti; cei dy dalu'n ôl yn atgyfodiad y cyfiawn."

Luke 14. 1, 7-14 On one occasion when Jesus was going to the house of a leader of the Pharisees to eat a meal on the sabbath, they were watching him closely. When he noticed how the guests chose the places of honour, he told them a parable. 'When you are invited by someone to a wedding banquet, do not sit down at the place of honour, in case someone more distinguished than you has been invited by your host; and the host who invited both of you may come and say to you, "Give this person your place", and then in disgrace you would start to take the lowest place. But when you are invited, go and sit down at the lowest place, so that when your host comes, he may say to you, "Friend, move up higher"; then you will be honoured in the presence of all who sit at the table with you. For all who exalt themselves will be humbled, and those who humble themselves will be exalted.'

He said also to the one who had invited him, 'When you give a luncheon or a dinner, do not invite your friends or your brothers or your relatives or rich

neighbours, in case they may invite you in return, and you would be repaid. But when you give a banquet, invite the poor, the crippled, the lame, and the blind. And you will be blessed, because they cannot repay you, for you will be repaid at the resurrection of the righteous.'

Ôl Gymun 104 Dduw pob trugaredd, rydym ni dy bobl ffyddlon wedi dathlu'r un aberth hwnnw sy'n dwyn ymaith ein pechodau ac yn dod â maddeuant a thangnefedd: trwy ein cymun, cadw ni'n ddiysgog ar sylfaen yr efengyl a chadw ni rhag pob pechod; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 104 Lord of all mercy, we your faithful people have celebrated that one true sacrifice which takes away our sins and brings pardon and peace: by our communion keep us firm on the foundation of the gospel and preserve us from all sin; through Jesus Christ our Lord.